| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Alergeddau ac Adweithiau Alergaidd - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae’r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a’r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi’i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau’r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad/<br>Consultation:</td><td colspan="3">Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad Cymeradwyo /<br>Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad /<br>Name of group & date</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee:</td><td>22/01/2025</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd /<br>Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg /<br>Audit & Risk Committee:</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br>Curriculum & Standards Committee</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /<br>Finance, People & Culture Committee:</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">15/01/2028</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i’w chyfieithu gan ddefnyddio’r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**


| | |
|---|---|
| 1. | Nod |
| 2. | Ein gweithdrefnau |
| 3. | Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd 2014 |
| 4. | Mewn achos o adwaith alergaidd difrifol |


**1.** Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn ymwybodol y gallai plant gael neu ddatblygu alergedd a fydd yn arwain at adwaith alergaidd.

Ein nod yw sicrhau bod adweithiau alergaidd yn cael eu lleihau i'r lleiafswm neu, lle bo'n bosibl, eu hatal a bod staff yn gwbl ymwybodol o sut i gefnogi plentyn a allai fod yn cael adwaith alergaidd.

**2. Ein gweithdrefnau**

2.1 Gofynnwn i rieni/gofalwyr rannu'r holl wybodaeth am adweithiau alergaidd ac alergeddau ar ffurflen gofrestru eu plentyn ac i hysbysu staff am unrhyw alergeddau a ddarganfyddir ar ôl cofrestru. Rhieni/gofalwyr i lenwi ffurflen gwybodaeth alergedd A1 cyn i'r plentyn ddechrau yn y feithrinfa. Mae manylion alergeddau, dewisiadau ac anoddefiadau wedi'u cynnwys ar gofnod gwybodaeth y plentyn y mae'r rhieni'n ei gwblhau hefyd.

2.2 Mae'r holl staff yn cael gwybod am arwyddion a symptomau adwaith alergaidd posibl rhag ofn y bydd adwaith anhysbys neu adwaith cyntaf mewn plentyn. Gall y rhain gynnwys brech, cyfog, poen yn y stumog, dolur rhydd, croen yn cosi, llygaid yn rhedeg, diffyg anadl, poen yn y frest, y geg neu'r tafod yn chwyddo, llwybrau anadlu i'r ysgyfaint yn chwyddo, gwichian ac anaffylacsis.

2.3 Rydym yn rhannu'r holl wybodaeth gyda'r holl staff ac yn cadw cofrestr alergeddau yn y brif gegin. Caiff hyn ei adolygu bob 6 mis ond caiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

2.4 Pan fo gan blentyn alergedd difrifol hysbys, bydd yr uwch dîm rheoli/uwch nyrs y feithrinfa yn cynnal Gweithdrefn Asesu Risg Alergedd lawn gyda'r rhiant/gofalwr cyn i'r plentyn ddechrau yn y feithrinfa a/neu yn dilyn hysbysiad o alergedd hysbys a rhennir yr asesiad hwn gyda'r holl staff.

2.5 Os rhagnodir meddyginiaeth lleddfu alergedd i blentyn fel EpiPen, Piriton neu Allerief ac ati, bydd cynllun gofal yn cael ei greu ochr yn ochr â'r rhieni ac ar unrhyw adeg o adwaith alergaidd bydd aelodau'r staff yn dilyn hyn gyda'r plentyn. Bydd hyn yn cynnwys manylion cyswllt brys, sut mae'r plentyn yn debygol o ymateb i'r alergen a sut i'w drin. Cedwir cynlluniau gofal plant yn ystafell benodol y plentyn. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu bob 3 mis i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

2.6 Bydd unrhyw blentyn sy'n cael presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth lleddfu alergeddau yn cwblhau ffurflen feddyginiaeth barhaus gyda'r rhiant cyn i'r plentyn ddechrau yn y feithrinfa. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu bob 3 mis i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

2.7 Mae'r holl fwyd sy'n cael ei baratoi ar gyfer plentyn sydd ag alergedd penodol, yn cael ei baratoi mewn ardal lle nad oes unrhyw siawns o halogiad ac yn cael ei weini ar offer nad yw wedi bod mewn cysylltiad â'r math penodol hwn o fwyd, e.e. cnau.

2.8 Bydd prif bryd a phwdin pob plentyn sydd ag alergedd hysbys yn cael eu gweini ar blât neu fowlen werdd, a fydd wedi'i selio a'i labelu â label alergen ac enw'r plentyn, yn y prif ffreutur. Bydd y ddysgl hon yn cael ei chymryd i ystafell y plentyn cyn dod ag unrhyw fwyd arall i mewn i'r ystafell a bydd yn parhau i fod wedi'i selio nes ei bod yn cael ei rhoi i'r plentyn amser pryd bwyd. Bydd pob pryd arall yn cael ei weini ar blât o unrhyw liw arall heblaw am wyrdd. Bydd pryd y plentyn bob amser ar blât gwyrdd p'un a yw'r alergen yn bresennol yn y bwyd ai peidio.

2.9 Mae'r rheolwr, cogydd y feithrinfa a'r rhieni/gofalwyr yn cydweithio i sicrhau nad yw'r plentyn sydd ag alergenau bwyd penodol yn cael unrhyw fwyd yn y feithrinfa a allai eu niweidio. Gall hyn gynnwys dylunio bwydlen briodol neu amnewid prydau penodol ar fwydlen bresennol y feithrinfa.

2.10 Mae'r staff ym mhob ystafell yn cysylltu â chynorthwyydd y gegin bob bore a phrynhawn i roi gwybod i'r cynorthwyydd beth yw gofynion yr ystafell ar gyfer y diwrnod hwnnw; gan gynnwys plant penodol sydd â gofynion dietegol gan gynnwys anoddefiadau neu ddewisiadau.

2.11 Caiff seddi eu monitro ar gyfer plant ag alergeddau. Lle bo'n briodol, bydd staff yn eistedd gyda phlant sydd ag alergeddau, er mwyn sicrhau nad oes croeshalogi. Dim ond gyda'r plentyn penodol hwnnw y bydd yr aelod staff yn eistedd a lle bo'n briodol o ran oedran/cyfnod, bydd staff yn trafod alergeddau bwyd gyda'r plant a'r risgiau posibl.

2.12 Os bydd gan blentyn adwaith alergaidd i fwyd, pigiad gwenynen neu gacynen, planhigyn ac ati, bydd aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf pediatrig yn gweithredu'n gyflym ac yn rhoi'r driniaeth briodol, lle bo angen. Byddwn yn rhoi gwybod i'r rhieni/gofalwyr ac yn cofnodi'r wybodaeth yn y llyfr digwyddiadau, yn cwblhau ffurflen A2 ac yn diweddaru'r gofrestr alergeddau.

2.13 Os bydd adwaith alergaidd yn gofyn am driniaeth arbenigol, e.e. EpiPen, yna bydd o leiaf ddau aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn a'r rheolwr yn cael hyfforddiant meddygol penodol i allu rhoi'r driniaeth i bob plentyn unigol.

**3. Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd 2014**

3.1 Rydym yn ymgorffori gweithdrefnau ychwanegol yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (FIR) gan gynnwys arddangos ein bwydlenni wythnosol ar y Bwrdd Gwybodaeth i Rieni/gwefan/system ar-lein gan nodi unrhyw un o'r 14 alergen a ddefnyddir fel cynhwysion yn unrhyw un o'n seigiau.

**4. Os bydd adwaith alergaidd difrifol a bod angen cludo plentyn i'r ysbyty, bydd rheolwr/aelod o staff y feithrinfa yn:**

4.1 Ffonio am ambiwlans ar unwaith os yw'r adwaith alergaidd yn ddifrifol. Ni fydd staff yn ceisio cludo'r plentyn sâl yn eu cerbyd eu hunain

4.2 Sicrhau bod rhywun yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr wrth aros am yr ambiwlans, a threfnwch i gyfarfod â nhw yn yr ysbyty.

4.3 Trefnu i'r aelod staff mwyaf priodol fynd gyda'r plentyn, gan fynd ag unrhyw wybodaeth berthnasol gydag ef/hi fel ffurflenni cofrestru, taflenni meddyginiaeth perthnasol, meddyginiaeth, y cynllun gofal a chysurwr y plentyn.

4.4 Ail-leoli staff os oes angen i sicrhau bod digon o staff yn cael eu defnyddio i ofalu am y plant sy'n weddill. Gallai hyn olygu grwpio'r plant gyda'i gilydd dros dro.

4.5 Rhoi gwybod i aelod o'r tîm rheoli ar unwaith.

4.6 Aros yn dawel bob amser a pharhewch i gysuro a sicrhau'r plentyn sy'n profi adwaith alergaidd.  Gall plant sy'n dyst i'r digwyddiad hefyd gael eu heffeithio'n fawr ganddo ac efallai y bydd angen llawer o fwythau a sicrwydd arnyn nhw. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar staff hefyd yn dilyn y digwyddiad.

4.7 Yn dilyn y digwyddiad, bydd cynllun gofal y plentyn yn cael ei adolygu gyda'r rhiant/gofalwr a'i ddiweddaru. Bydd ffurflen adwaith alergaidd A2 yn cael ei chwblhau gan y feithrinfa a'i llofnodi gan y rhieni yn y cyfarfod hwn.